

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Medi 9fed 2014 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Davies (is-gadeirydd), Gwynfryn Williams, Arwel Davies, Gwynedd Jones a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jean Roberts, Euros Puw, Gwilym Davies, Rhys Richards, Geraint Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, ond gan nad oedd y cynghorwyr a oedd yn bresennol wedi mynychu'r cyfarfod ym mis Gorffennaf cytunwyd i'w cadarnhau yn y cyfarfod nesaf.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Gyngor Gwynedd:-

- i) Pont Llwynhir, Parc - cafwyd cadarnhad bod y gwaith wedi cael ei gwblhau
- ii) Offer ychwanegol i Gae Chwarae Y Parc - diolchwyd i'r Cyngor am basio cais y plant ymlaen iddynt. Yn anffodus oherwydd pwysau cyllidol nid oedd yn bosib uwchraddio'r offer ar hyn o bryd ond bydd y cais yn aros ar eu rhaglen waith ac yn cael ei ystyried os ddaw arian ychwanegol i law.

Maes y Dail, Celyn.

Derbyniwyd llythyr gan berchnogion Maes y Dail yn egluro nad oeddynt wedi newid enw'r annedd a dim ond o fewn y sefydliad y defnyddi'r enw 'Morton's Lodge'.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn

- i) Cafwyd adroddiad o'r datblygiadau diweddaraf a gwahoddiad i'r diwrnod agored, dydd Gwener Medi 12fed.

b) Cyngor Gwynedd

- i) Derbyniwyd copi o 'Newyddlen Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2011 - 2026)'.

c) Un Llais Cymru

- i) Gwahoddiad i'r Gynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2014 a chopi o'r cynigion a gyflwynir.
- ii) Gwybodaeth am y grantiau bach sydd ar gael gan yr Ymddiriedolaeth 'People's Postcode'.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w chefnogi:-
NP5/72/232 – Cynllun trydan dwr. Nant Aberdderfel, Arenig.

Derbyniwyd cadarnhad bod y ceisiadau canlynol wedi cael eu caniatáu:-

- NP5/72/LB143G - Caniatâd Adeilad Rhestredig am newidiadau mewnol ac allanol. Canolfan Treftadaeth Byd Mary Jones. Eglwys Beuno Sant, Llanycil
- NP5/72/223E - Adeiladu adeilad amaethyddol i gadw da byw a storio peirianwaith ac adeiladu cytiau cwn ynghlwm. Blaen y Cwm, Parc.
- NP5/72/53E - Adeiladu garej dwbl unllawr ar wahân. Rhyd Lechog, Frongoch.

Materion Ariannol.

Datganiad Blynyddol.

Derbyniwyd y Datganiad yn nol gan UHY Hacker Young gyda'r cadarnhad olaf ei fod yn gywir. Cytunwyd i arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad'.

Swyddfa Archwilio Cymru.

Derbyniwyd llythyr yn egluro bod y Swyddfa wedi penderfynu ailddosbarthu arian o gronfeydd wrth gefn a bydd £30 ar gael i bob Cyngor Tref a Chymuned yng Nghymru. Cytunwyd i lenwi'r ffurflen i hawlio'r arian.

Cytunwyd i dalu'r canlynol

Partneriaeth Penllyn (cyfraniad at y costau gweinyddol)

UHY Hacker Young (archwiliad mewnol)

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Shelter Cymru a Chylch y Pethe. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Materion Lleol.

Baw ci ym mhentref Parc.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â warden cwn Cyngor Gwynedd i ofyn am arwyddion ychwanegol i'r pentref gan nad oedd pob perchennog yn clirio i fyny ar ôl eu cwn. Trafodwyd hefyd y budreddi a oedd yn cael ei adael ar y ffyrdd gan beiriannau amaethyddol a gofynnwyd i'r trigolion lleol fod yn fwy ystyriol a chlirio unrhyw lanast a oedd yn cael ei adael ar ôl.